

## **Maer Newydd Merthyr Tudful 2018/19**

Mae Maer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer 2018/19 wedi ei ymsefydlu. Mae'r Cynghorydd Clive Tovey, Aelod Ward Gurnos a phreswlydd yng Nghefn Coed, bellach yn Ddinesydd Cyntaf y Fwrdeistref Sirol am yr ail dro ar ôl gwasanaethu tymor fel Maer yn 2010/11.

Fe aned Clive yng Nghwmbrân ac fe aeth i Ysgol Gorllewin Mynwy ym Mhont-y-pŵl, ac fe gymerodd Radd gyntaf mewn Fferylliaeth ym Mhrifysgol Manceinion. Roedd gan Clive awydd i weld y byd, felly yn 1981 aeth i Awstralia i weithio fel Fferylllydd, ac aeth ymlaen i astudio Gradd Meistr mewn Fferylliaeth ym Mhrifysgol Queensland. Wedi hynny, bu'n astudio meddygaeth ac ar ôl cymhwyso fel meddyg ym mis Ionawr 1989, fe adawodd Surfer's Paradise a dechreuodd weithio ychydig ddyddiau yn ddiweddarach yn Ysbyty'r Tywysog Siarl (YTS).

Mae Clive wedi bod yn Ymgynghorydd Damweiniau ac Achosion Brys yn YTS am y 18 mlynedd diwethaf.

Dechreuodd gyrfa wleidyddol Clive yn 2004 pan etholwyd ef yn Gynghorydd ar gyfer Ward Vaynor ac ef yw'r unig Gynghorydd yn hanes Merthyr Tudful i'w ethol i swydd y Maer am yr ail dro. Dywedodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Lisa Mytton: "Dydw i erioed wedi adnabod unrhyw un, a dwi'n siarad fel cyn faer fy hun, i gofleidio'r rôl gymaint â Clive. Cymaint felly, mae e'n ei wneud ddwywaith! "

Eleni mae Clive yn cefnogi dwy elusen; Cymorth Canser Macmillan Cangen Merthyr Tudful ac Ambiwllans Sant Ioan, Ardal Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Yn ystod ei amser fel Maer yn 2010/11 cododd Clive dros £ 17,000 i'r Gymdeithas Alzheimer's, ac mae'n gobeithio codi hyd yn oed yn fwy eleni!

Rydym ni'n dymuno i Clive flwyddyn lwyddiannus iawn fel Maer.

Y Dirprwy Faer ar gyfer 2018/19 yw'r Cynghorydd Howard Barrett, y Cynghorydd Ward ar gyfer Vaynor a chyn Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth.